# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

**Dyddiad: Dydd Iau, 1 Hydref 2015**

**Amser: 09.12 - 14.32**

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3246

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>John Griffiths AC<br>Altaf Hussain AC<br>Lynne Neagle AC<br>Gwyn R Price AC<br>Lindsay Whittle AC<br>Kirsty Williams AC |
| Tystion: | Dr Steven Macey, ASH Cymru<br>Jamie Matthews, ASH Cymru<br>Yr Athro Linda Bauld, Ymchwil Canser y DU<br>Yr Athro John Britton, Canolfan y DU ar gyfer Astudiaethau Tybaco ac Alcohol ac Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Resbiradol, Prifysgol Nottingham ac Ysbyty Dinas Nottingham |

| | |
|---|---|
| | Yr Athro Peter Hajek, Canolfan Astudio Tybaco ac Alcohol y DU, a chydawdur yr adroddiad 'E-cigarettes: an evidence update' a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr<br>Dr Phil Banfield, Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)<br>Dr Iain Kennedy, Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)Dr Alan Rees, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr<br>Beverlea Frowen, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr<br>Yr Athro Alan Maryon-Davis, Cyfadran Iechyd Cyhoeddus y DU |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 490KB) Gweld fel HTML (373KB)

## 1 Blaenraglen waith y Pwyllgor.

1.1 Nododd yr Aelodau flaenraglen waith amlinellol y Pwyllgor ar gyfer gweddill y pedwerydd Cynulliad, gan gytuno y byddent yn dod yn ôl at yr eitem hon ar ddyddiad arall.

1.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- ei ddull gweithredu ar gyfer gwneud darn manwl o waith dilynol ar ei ymchwiliad i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru;
- neilltuo amser yn ei raglen i ystyried Bil drafft Cymru, yn enwedig yr effaith y gallai unrhyw fodel cadw pwerau ei chael ar y setliad datganoli mewn perthynas â materion iechyd a gofal cymdeithasol; a
- gohirio ei ystyriaeth o gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17 tan fis Ionawr 2016.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Elin Jones a Darren Millar.

## 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 13

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

3.2 Cytunodd y tystion i ymchwilio ynghylch a oes gwybodaeth ar gael mewn perthynas â'r canlynol:

- sut mae ysmygwyr yn defnyddio e-sigaréts i leihau eu defnydd o sigaréts confensiynol;
- cymhariaeth o'r niwed posibl i iechyd o'r tocsinau a charsinogenau a ryddheir gan gynhyrchion pob dydd â'r rhai a ryddheir gan e-sigaréts; a
- thystiolaeth o unrhyw welliannau i iechyd ysmygwyr sy'n defnyddio e-sigaréts i leihau eu defnydd o sigaréts confensiynol.

## 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 14

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

## 5 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 15

5.1 Ymatebodd y tyst i gwestiynau gan yr Aelodau.

5.2 Cytunodd y tyst i ddarparu i'r Pwyllgor gopi o'r astudiaeth y cyfeiriodd ati ar sut y gall perthynas pobl ifanc ag e-sigaréts effeithio ar eu perthynas â sigaréts confensiynol.

## 6 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 16

6.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

## 7 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 17

7.1 Ymatebodd y tyst i gwestiynau gan yr Aelodau.

## 8 Papurau i'w nodi

### 8.1 Cofnodion y cyfarfodydd ar 17 a 23 Medi 2015

8.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 a 23 Medi 2015.

### 8.2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): gwybodaeth ychwanegol

8.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Feddygol Prydain.

## 9 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac ar gyfer eitem 1 yn y cyfarfod ar 7 Hydref 2015

9.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): ystyried y dystiolaeth

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.